# Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

**Teitl y cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 5 Rhagfyr 2022

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dominic Driver, CNC

Marc Williams, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Dennis Matheson, TFA

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Hedd Pugh, NFU Cymru

Anthony Geddes, Confor

John Browne, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)

Tim Kirk, Confor

Fraser McAuley, CLA

Ieuan Davies, CNC

Teleri Fielden, FUW

Huwel Manley, CNC

**Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:**

Haf Leyshon, CNC (Eitem 2)

Hannah Hughes, CNC (eitem 2)

Dr Richard Kipling, Sustainable Food Trust (Eitem 3)

Marianne Fisher, Cyngor Sir Fynwy (eitem 4)

Abigail Sanders (Eitem 4)

Nick Thomas, CNC (Eitem 5)

Jenifer Day, CNC (eitem 5)

Joel Rees-Jones, CNC (eitem 5)

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Ruth Jenkins, CNC

Martyn Evans, CNC

David Letellier, CNC

Lee Pritchard, CFfI Cymru

Bernard Griffiths, FUW

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson (Cadeirydd y Fforwm) bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau. Estynnodd groeso i'r gwesteion hefyd.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn cysylltiad â'r eitemau ar yr Agenda.

3. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf, camau gweithredu a materion sy'n codi

4. Mae cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno arnynt yn ffurfiol, a byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CNC. Bu'r Grŵp yn adolygu cofnodion y

cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2022. Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. Tynnodd Zoe sylw at y ffaith nad yw tudalennau gwe allanol CNC ar gyfer rhai grwpiau fforwm yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Cyfeiriwyd yn benodol at dudalen we Fforwm Pysgodfeydd Cymru lle nad yw'r agenda/papurau wedi'u diweddaru ers 2021.

***PG Rhagfyr 01: Bronwen Martin, CNC i roi adborth i gydweithwyr sy'n hwyluso grwpiau fforwm eraill ynglyn â diweddaru gwefan allanol CNC gyda chofnodion cyfarfodydd yn rheolaidd.***

6. Bu'r grŵp yn adolygu'r camau sy’n weddill, a chafwyd diweddariadau. Mae'r diweddariadau canlynol yn berthnasol:

    - PG 06 Medi: Aelodau i gysylltu â Marc Williams, CNC gydag unrhyw adborth neu awgrymiadau ar gyfer y gweithdy cynllunio tywydd eithafol/cynhadledd bywyd gwyllt arfaethedig.
    - Mae Hannah Hughes a Haf Leyshon, CNC yn gweithio ar Brosiect Llethrau Llon, a chafwyd diweddariad byr ar lafar. Cynigir y bydd Cynhadledd Rheoli Tir a Thanau Gwyllt yn cael ei chynnal tua mis Mawrth 2023. Croesewir adborth ar ba bryd fyddai'r amser priodol i'w chynnal a phwy allai fod â diddordeb mewn mynychu. Bydd yn ystyried technegau rheoli tir amgen sy'n bwydo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, prosiectau cydweithredol a chyfleoedd i leihau'r risg o danau gwyllt ledled Cymru. Gofynnodd Haf i'r aelodau roi adborth ynghylch:
        1) Pryd fyddai'n briodol
        2) Y ffordd orau o fynd ati
        3) Y lle gorau i'w chynnal

      Dywedodd Dominic Driver, CNC ei fod yn syniad da iawn ac yn gyfle i ddysgu gan y prosiect Llethrau Llon. Gallai mis Mawrth fod yng nghanol y tymor tanau gwyllt ei hun, felly efallai bod angen ailystyried yr amseru. Efallai y byddai'n well yn ddiweddarach yn y flwyddyn a phwysleisio'r ffaith ein bod yn poeni’n arw am y tymor tanau gwyllt eleni oherwydd y tebygolrwydd y bydd y gwasanaeth tân ar streic ar y pryd, ynghyd ag effeithiau newid hinsawdd, gaeaf mwyn a haf sych. Dywedodd Haf fod prosiect Llethrau Llon yn gorffen ym mis Mehefin, felly ychydig iawn o amser sydd i gynnal cynhadledd ac ysgrifennu adroddiad terfynol am 2 flynedd y prosiect. Roedd Haf yn cydnabod bod mis Mawrth yn gyfnod prysur iawn i ffermwyr gyda'r ŵyna.

      Ategodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, y byddai mis Mawrth yn anghyfleus i bobl sy’n cadw da byw. Os oes gennych ddysgu i'w rannu, gallech ysgrifennu erthygl fer er mwyn i NFU Cymru ei rhannu wedyn drwy gyhoeddiad Farming Wales gan ei fod yn faes o ddiddordeb i ffermwyr. Diolchodd Haf i Rachel am yr awgrym hwn cyn rhannu manylion cyswllt Llethrau Llon.

***PG 02 Rhagfyr: Bronwen Martin, CNC i ailrannu cyfeiriad e-bost Llethrau Llon er mwyn i aelodau gysylltu â'r tîm yn uniongyrchol gyda'u hadborth a'u hawgrymiadau ar gyfer y gynhadledd arfaethedig.***

Bu Huwel Manley, CNC yn trafod rhai o'r risgiau a'r problemau sy'n ymwneud â thanau gwyllt. Cyfeiriodd Huwel at y diwydiant ffermio a gofyn beth arall y gellir ei wneud yn realistig i geisio torri rhwystrau tân ar dir agored a thir caeedig. Awgrymodd Huwel fod angen i'r gynhadledd ac unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio ohoni gael eu gwneud cyn y tymor nythu. Dywedodd Haf y bydd y gynhadledd yn arddangos rhaglen o dechnegau rheoli tir gydol y flwyddyn yn hytrach na gwasgu'r cyfan i amserlen benodol. Soniodd Haf y bydd Swyddog Tân yn cael ei secondio i CNC o fewn y misoedd nesaf a fydd yn edrych yn fanylach ar hyn ac yn ceisio ymwneud â chynifer o bobl ag sy'n bosib er mwyn cael adborth a chefnogi sgyrsiau gyda Llywodraeth Cymru am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## Eitem 3 Cyflwyniad: Global Farm Metric (GFM)

7. Ymunodd Dr Richard Kipling (Sustainable Food Trust) â'r cyfarfod i roi cyflwyniad am y Global Farm Metric a'r fframwaith diwygiedig.

8. Disgrifiodd Richard y Metrig a roddwyd at ei gilydd i ddarparu iaith gyffredin ar gyfer cynaliadwyedd, golwg gyfannol ar gynaliadwyedd (e.e. amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol) ac i helpu ffermwyr i weld sut mae'n effeithio arnyn nhw gyda dangosyddion seiliedig ar ganlyniadau. Mae'r Metrig yn annibynnol ar athroniaeth ffermio benodol, nid yw'n edrych ar arferion, ond yn hytrach ar ganlyniadau er mwyn cael trosolwg cyfannol.

9. Mae hyn wedi datblygu dros amser ac wedi'i dreialu. Datblygwyd teclyn ymchwil yn seiliedig ar yr offeryn nwyddau cyhoeddus a ddatblygwyd yn yr Organic Research Centre a Phrifysgol Reading. Roedd yr offeryn ymchwil hwnnw'n asesiad prawf o gysyniad.

10. Mae eleni wedi cynnwys proses ddatblygu ar gyfer y Metrig, a ddechreuodd gyda chasglu a dadansoddi systematig o adborth ar y treial gan ffermwyr. Cynhaliwyd rhan ohono yng Nghymru gyda phrosiect 'Space for Local Production' Cyngor Sir Fynwy. Treialwyd y Metrig ar 11 o ffermydd yng Nghymru a chafwyd treialon yn Lloegr hefyd. Dyma broses datblygu'r Metrig:

    - Casglu a dadansoddi'n systematig adborth ar y treial gan ffermwyr (prosiect SFLP)
    - Casglu barn cynghorwyr ffermwyr ar asesiadau cynaliadwyedd a rhwystrau i ymwneud â ffermwyr ar gynaliadwyedd (prosiect SFLP)
    - Defnyddio canfyddiadau i egluro materion, anghenion ffermwyr a chynghorwyr, a rôl y Metrig a'i nodau.
    - Datblygu cydlyniad a gwerth asesiad y Metrig.
    - Adolygiadau llenyddiaeth i nodi dangosyddion gwell ar draws categorïau ac is-gategorïau'r Metrig (33+)

11. Rhoddodd Richard drosolwg o rywfaint o'r adborth a'r canlyniadau a gawsant o'r gwaith gyda chynghorwyr ffermwyr. Roedd hyn yn seiliedig ar arolwg a gweithdy a hwyluswyd drwy Cyswllt Ffermio. Llwyddwyd i nodi themâu cyffredin o'r sesiynau ymgysylltu cyn edrych ar yr heriau y gallai'r asesiad fod o gymorth yn eu cylch.

12. Aeth Richard ati i grynhoi'r rhannau gwahanol o asesiad a thrafod rhai o'r atebion ar gyfer yr heriau. Hefyd, nodwyd rhai problemau gydag asesiad a oedd yn ymwneud â

chyfyngiadau ymarferol, buddiannau, cyfyngiadau gwybodaeth a chyfyngiadau gwybyddol. Mae perygl y gall rhwystrau fel hyn achosi i gynaliadwyedd ymddangos yn fwy cymhleth a gwneud pobl yn llai tebygol o fod eisiau cymryd rhan.

13. Dywedodd Richard eu bod wedi dechrau edrych ar y Metrig a'r asesiad cynaliadwyedd yn gyffredinol fel rhan o broses lle'r oedd y fframwaith yn adnodd dysgu. Mae'r data'n darparu gwybodaeth am gyflwr y system ac yn rhoi gwybodaeth i helpu'r broses o wneud penderfyniadau. Mae asesiadau effaith yn helpu i ddeall yr achosion dros gyflwr presennol y system er mwyn nodi newidiadau. Dywedodd Richard ei bod yn bwysig cynnal 'asesiad o gyflwr y system' a helpodd i lywio datblygiad olwyn weledol y Metrig.

14. Crynhodd Richard rai o'r casgliadau:

- Dylid ystyried asesiadau fel rhan o broses o newid sy'n dechrau gydag ymgysylltu trwy ddysgu
- Mae defnyddio fframwaith cynaliadwyedd cyfannol fel y Metrig fel adnodd dysgu:
    - yn debygol o fod yn gam cyntaf pwysig mewn prosesau newid i lawer o ffermwyr Cymru
    - yn cefnogi datblygiad polisïau er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol yn sgil anwybyddu cyfnewidiadau rhwng nodau cynaliadwyedd
- Gallai asesiadau o gyflwr system ysgogi dysgu, meithrin ymddiriedaeth, a chefnogi newidiadau os cânt eu cadw'n syml ac ar wahân i wobrau a chosbau.
- Mae angen asesiadau effaith i gysylltu arferion â chanlyniadau, a dylent gynnwys effeithiau oddi ar y fferm ar y system
- Rhaid i'r broses weithredu nodi a mynd i'r afael â rhwystrau rhag newid, a sicrhau bod pawb yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu heffeithiau ar ein system cynhyrchu bwyd
- Mae defnyddio dangosyddion cyffredin o gyflwr y system, a lleihau dyblygu wrth gasglu data yn bwysig ar gyfer effeithiolrwydd asesu a sicrhau cyfranogiad

15. Dywedodd Richard mai'r camau nesaf yw:

- datblygu a defnyddio fframwaith y Metrig fel adnodd dysgu rhad ac am ddim, heb ei frandio, i'w ddefnyddio wrth gynghori ffermwyr, mewn addysg a hyfforddiant proffesiynol
- datblygu dangosyddion iteraidd ar gyfer asesiadau o gyflwr y system mewn cydweithrediad ag eraill

***PG 03 Rhagfyr: Bronwen Martin, CNC i rannu copi o gyflwyniad Dr Richard Kipling ar y Global Farm Metric ynghyd â'i fanylion cyswllt.***

16. Gofynnodd Zoe a oes cefnogaeth gan sefydliadau eraill a pham mai 'Global' Farm Metric yw'r enw arno - ai menter Gymreig neu fenter y DU yw hi? Dywedodd Richard mai'r Sustainable Food Trust feddyliodd am 'Global Farm Metric' tua 6 neu 7 mlynedd yn ôl. Dywedodd Richard ei fod wedi dechrau gweithio arno yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mai ei friff oedd edrych arno o safbwynt y DU a Chymru. Nod y Sustainable Food Trust yw ei ehangu a gweld sut gall y syniadau hyn fod yn berthnasol mewn gwledydd gwahanol hefyd. Mae partneriaid ym Malawi a'r Unol Daleithiau yn ystyried sut gallai'r syniadau hyn fod yn berthnasol yn eu gwledydd nhw.

17. Dywedodd Teleri Fielden, FUW fod y prosiect wedi cyfleu llawer o'r rhwystrau a'r heriau o brofiad ffermwr. Mae'r farn ei fod yn asesiad mwy cyfannol yn rhywbeth i'w groesawu,

ac yn rhywbeth sydd wedi bod ar goll o gynigion Llywodraeth Cymru ym marn yr FUW. O ran Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, maent yn cynnig gwneud adolygiad cynaliadwyedd i bob un ffermwr sy'n ymuno â'r cynllun newydd. Gallai hwn fod yn adnodd dysgu gwerthfawr iawn ond sut gallech chi weld rhywbeth fel hyn yn gweithio o fewn yr adolygiad cynaliadwyedd. Dywedodd Richard yn gyntaf, bod adborth y ffermwr yn gadarnhaol iawn am gynghorwyr ffermwyr a'u bod angen y eu cymorth, ond nid oeddent 'chwaith am i hynny ddod allan o'r gyllideb. Yn ail, gwelsom fod yr asesiad yn cymryd gormod o amser oherwydd ein bod yn ceisio casglu data ymarfer yn ogystal â data ar gyflwr y system. Dywedodd Richard ei bod hi'n amlwg bod yn rhaid canolbwyntio ar sut gallwn ni gael rhywbeth ystyrlon sydd hefyd yn gyraeddadwy i'r ffermwyr ac nad yw'n ychwanegu at eu straen.

18. Yn ôl Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, yr her fawr yw sut mae mynd ati i brif ffrydio. Mae'r diwydiant wedi adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud gyda 'Climate Smart Agriculture' ac wedi cyflwyno cynnig i Lywodraeth Cymru o'r enw'r Fframwaith Ffermio Carbon Isel. Mae'r diwydiant am fwrw ymlaen â phrif ffrydio rhai o'r heriau hyn, sydd i gyd yn dechrau gyda'r asesiad.

19. Awgrymodd Zoe y gallai Richard gadw mewn cysylltiad â'r Fforwm ac anfon unrhyw ddiweddariadau ar gynnydd er mwyn i'r aelodau wybod mwy am y gwaith.

## Eitem 4 Living Land Management Wales

20. Ymunodd Marianne Fisher, Cyngor Sir Fynwy â'r cyfarfod i roi cyflwyniad am brosiect Living Land Management Wales.

21. Cafodd y prosiect hwn ei greu fel prosiect partner i brosiect Space for Local Production y soniodd Richard amdano.

22. Mae'r prosiect wedi'i leoli'n Sir Fynwy ac yn defnyddio mapiau lloeren, data economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol, a modelu cyfrifiadurol i fynd i'r afael â'r cwestiwn sylfaenol: 'sut dylen ni ddefnyddio ein tir nawr ac i'r dyfodol?'. Prosiect partneriaeth rhwng Cyngor Sir Fynwy, Prifysgol Aberystwyth, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ydyw. Fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru drwy gam olaf y Rhaglen Datblygu Gwledig ac mae ganddo linell amser byr iawn yn rhedeg o fis Mehefin 2022 tan ddiwedd Mehefin 2023.

23. Mae'r prosiect yn cynnwys dwy elfen: y naill yn gweithio gyda deiliaid tir a rheolwyr tir ar lefel fferm neu ddaliad unigol, a'r llall yn gweithio gyda phartneriaid ac ymarferwyr ar raddfa sirol ac ar lefel gwneuthurwyr penderfyniadau polisi.

24. Rhan ganolog o'r prosiect yw Living Wales, sy'n cael ei ddatblygu gan Brifysgol Aberystwyth ac yn defnyddio arsylwi'r Ddaear a synhwyro o bell ynghyd ag amryw o setiau data ac algorithmau soffistigedig i ddadansoddi a monitro tirweddau a newid yn y dirwedd gan ddefnyddio lluniau lloeren dyddiol. Dyma blatfform sy'n dal i ddatblygu'n gyflym ac nid yw'n gynnyrch gorffenedig eto. Ar hyn o bryd, gall fapio a monitro gorchuddion tir, cynefinoedd ac ecosystemau. Gall roi syniad o'u maint a'u hansawdd, ac mae hyn yn hwyluso cysylltedd mapio hefyd. Y nod yn y dyfodol (gwaith ar y gweill) yw integreiddio data economaidd-gymdeithasol a gwasanaethau ecosystemau a modelu rhagfynegol. Mae uchelgais i integreiddio cyfrifyddu cyfalaf naturiol ac yna rhoi rhai allbynnau rhagfynegol o effeithiau posibl senarios gwahanol fod. Yn y pen draw,

bydd yr adnodd yn cefnogi, yn gwella ac yn hwyluso cynllunio ar y cyd, gwneud penderfyniadau a monitro materion rheoli tir ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

25. Er mai Sir Fynwy yw cartre'r prosiect, mae data Living Wales yn cwmpasu Cymru gyfan, felly mae cyfle i ehangu. Mae Living Wales yn cefnogi proses gynllunio gyfranogol i symud eich prosiect o'i sefyllfa bresennol, i'r hyn yr hoffem iddo fod.

26. Dywedodd Marianne mai diben y prosiect yw:

- Ymwneud yn gynnar â rhanddeiliaid
- Profi a threialu platfform Living Wales, dilysu data i brofi a threialu'r dull cynllunio cyfranogol
- Dangos dichonoldeb a'r potensial i ehangu
- Darparu hyfforddiant i alluogi ymarferwyr
- Casglu gwybodaeth ar gyfer y tîm datblygu yn Aberystwyth

27. Soniodd Marianne am yr hyfforddiant ciwb data agored. Mae'r ciwb data agored yn caniatáu i ddadansoddiad lloeren gael canlyniadau ystyrlon allan o'r data heb fod angen symiau enfawr o bŵer ar eich cyfrifiadur neu gymryd llawer iawn o le storio. Bydd yn darparu hyfforddiant yn y canlynol:

- Yr hyn y gall Living Wales ei wneud ar hyn o bryd, addysgu pobl sut i fanteisio ar adnoddau rhad ac am ddim ac agored sydd eisoes ar gael, a'u cynnwys yn eu harferion bob dydd.
- Mae'r hyfforddiant am ddim ac ar agor i bawb, ac nid oes bwriad ar hyn o bryd i godi tâl am unrhyw beth a gynigir gan Living Wales.
- Bydd yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r platfform a fyddai'n galluogi'r rheini yn y gweithdy i roi barn ac arweiniad gwybodus i dîm y prosiect ynglŷn â beth maent yn ei feddwl o'r gallu hwn.

***PG 04 Rhagfyr: Bronwen Martin, CNC i rannu'r ddolen archebu lle ar gyfer digwyddiad Living Land Management Wales ar 14 Rhagfyr 2022.***

28. Dywedodd Marianne y byddant yn mynd trwy'r broses gyfranogol i weld beth all Living Wales ei ddatgelu am orchudd tir, cynefinoedd ac ecosystemau Sir Fynwy ddoe a heddiw. Yna, bydd trafodaeth er mwyn nodi gofynion y dyfodol, beth fyddai'n ddefnyddiol i'r gweithdy hwn neu'r platfform hwn allu ei ddarparu, pa wybodaeth hoffai pobl ei chael ohono? Yna byddant yn symud ymlaen i werthoedd tir a gwasanaethau ecosystemau.

29. Rydym ni'n chwilio am gymorth gydag elfen arall y prosiect. Mae angen i ni gysylltu â phedwar perchennog tir i archwilio'r hyn y gall Living Wales ei gynnig i reolwyr tir preifat wrth wneud penderfyniadau am eu daliadau unigol. Mae ychydig o feini prawf dethol yn ymwneud â pha mor hir y mae'r person wedi bod ar y tir, pa fath o ddata sydd ganddynt. Mae briff tendr ar gyfer cefnogi'r gwaith ymgysylltu hwn, sy'n fyw ar wefan GwerthwchiGymru ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod bod llawer iawn yn digwydd yn y maes technoleg amaethyddol hwn. Byddai'n werthfawr iawn cael rhywfaint o wybodaeth a chymorth ar ba adnoddau eraill sydd ar gael ar hyn o bryd a lle gallwn osgoi dyblygu, ychwanegu gwerth a nodi'r cyfleoedd sy'n codi gyda'r prosiect hwn. Dywedodd Marianne eu bod nhw'n ymwybodol bod llawer o arbenigwyr i gael, a gofynnodd i aelodau os ydynt adnabod unrhyw un a allai fod â diddordeb, naill ai o ran

cynnig eu tir i ddefnyddio’r system arno, neu gynnig am y tendr i gefnogi'r gwaith, i gysylltu. Rhannodd Marianne ei manylion cyswllt a chynnig rhoi mwy o wybodaeth fel y bo'n briodol.

***PG 05 Rhagfyr: Bronwen Martin, CNC i rannu cyflwyniad Marianne Fisher ar Living Land Management ac ailrannu ei manylion cyswllt.***

30. Rhoddodd Marianne ganllaw byr i'r math o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i ddeiliaid tir ei chael o'r system hon. Yn dibynnu ar ba fath o wybodaeth sydd gan y tirfeddiannwr neu y mae'n fodlon ei rhannu gyda thîm y prosiect, mae posibilrwydd o integreiddio’r wybodaeth hon gydag, er enghraifft, data cynnyrch i ddarparu mapiau cynnyrch neu gyda gwerthoedd tir hefyd.

31. Gofynnodd Zoe am y gyllideb a'r amcan gwreiddiol. Dywedodd Marianne fod Living Land Management Wales yn elwa ar fuddsoddiad presennol Llywodraeth Cymru ym mhlatfform Living Wales. Ariennir y prosiect trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig ac mae'n gysylltiedig â phrofion, treialon a chymhwyso ymarferol. Amcan gwreiddiol y prosiect yw'r awydd i annog a sicrhau’r defnydd o dechnoleg ym maes amaethyddiaeth yn Sir Fynwy a helpu i symud at arferion ffermio cynaliadwy a diogelwch bwyd.

32. Dywedodd Teleri Fielden, FUW fod Marianne wedi sôn am RPW Ar-lein, ond yn amlwg ar gyfer pob ffermwr sy’n cofrestru ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol, mae’r broses yn rhywbeth y maent yn ei wneud bob blwyddyn beth bynnag. Mae RPW Ar-lein yn rhoi gwybodaeth ar lefel manylder 0.01 hectar o ran y parseli tir, y codau cnydau, newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn y 30 mlynedd diwethaf, ac ati. Mae hynny i gyd yno, ac mae ffermwyr yn gyfarwydd â gwneud hynny a mynd drwy'r broses honno, ac mae’n amlwg yn werth chweil iddynt am fod taliad ar y diwedd. Awgrymodd Teleri fod angen gwneud mwy o ddefnydd ohoni neu roi mwy o wybodaeth yn ôl i'r ffermwyr. Mae pobl yn aml yn holi'r FUW sut mae pethau wedi newid ar fferm yn y gorffennol. Efallai fod gan TG y gallu i ddarparu'r wybodaeth honno yn ôl i ffermwyr. Dywedodd Marianne na fydd mapio lloeren o systemau arsylwi o bell byth yn cymryd lle 'esgidiau ar lawr gwlad' ond gobeithio y gall ganiatáu i reolwyr tir wneud defnydd mwy effeithlon o'u hamser. Bydd gwaith adrodd yn hawdd, a bydd yn helpu i fonitro a chynhyrchu data mewn fformat hawdd a hwylus i'r tirfeddianwyr. Dywedodd Teleri y byddai'n dda iawn pe gellid ei integreiddio ag RPW Ar-lein gan y byddai wedyn yn broses y mae'r ffermwyr eisoes wedi mynd drwyddi. Dywedodd Abigail Sanders, Prifysgol Aberystwyth mai dyna un o'r prif allbynnau maent eu heisiau o'r prosiect hwn. Wrth weithio gyda ffermwyr, maent am ymdrin â'r hyn sy'n ddefnyddiol iddynt, beth yw'r ffordd orau iddynt gael gafael ar fapiau ac edrych yn ôl ar eu fferm dros amser i weld tueddiadau.

33. Dywedodd Anthony Geddes, Confor ei fod wedi edrych ar rai o flaenoriaethau'r prosiect, sef ymgorffori technoleg, SMNR a diogelwch bwyd. Fodd bynnag, efallai fod bwlch o safbwynt diogelwch pren. Dywedodd Anthony er ei fod yn edrych ar ddata modelu a darparu gwybodaeth mapio, sut mae hynny mewn gwirionedd yn arwain at ymgorffori'r dechnoleg neu ddarparu'r cyngor priodol er mwyn gwneud y penderfyniadau hynny ar reoli tir strategol. Beth mae prosiect Sir Fynwy wedi'i wneud i sicrhau ei fod yn gyfannol ac yn cynnwys coedwigaeth mewn gwirionedd. O safbwynt dull cyfannol, dywedodd Marianne fod y prosiect yn ymwneud â phrofi'r hyn sy'n digwydd pan gewch chi grŵp o bobl mewn ystafell i ystyried newidiadau neu ddulliau rheoli tir. Rydym ni'n gwneud ein gorau glas i gyrraedd cymaint o bobl ag y gallwn drwy ddigwyddiadau fel hyn. Rydym ni'n estyn allan at ystod eang o bartneriaid,

rhanddeiliaid, cwmnïau preifat, y cyhoedd a'r 3ydd sector. Cofiwch nad yw'r system feddalwedd byth am ddweud wrthych chi beth i'w wneud. Bydd angen pobl i ddehongli'r data bob amser a bydd ansawdd a natur y canlyniadau hynny yn dibynnu ar y sawl sy'n dehongli. Dywedodd Abi mai un o'r galluoedd rydym yn ceisio eu sicrhau yw creu mapiau yn y dyfodol. Mae hyn yn gysylltiedig â choedwigaeth oherwydd mai data radar yw'r data lloeren rydym ni'n ei dderbyn ac mae pobl Living Wales wedi bod yn gweithio ar algorithmau cynhyrchu biomas. Rydym ni eisoes yn profi'r effeithlonrwydd a'r dibynadwyedd, yn enwedig ym maes coedwigaeth.

34. Dywedodd Huwel ei bod hi'n braf gweld gwaith ar dechnoleg yn symud ymlaen, a soniodd am rai prosiectau blaenorol gan gynnwys Prosiect Pontbren a oedd yn defnyddio technoleg lloeren tua 15 mlynedd yn ôl. Ymunwyd â'r Offeryn Mapio Daearyddol Polyscape, a oedd yn galluogi pobl i dargedu'r camau gorau ar gyfer uchder llifogydd a rheoli pren a chadwraeth. Gofynnodd Huwel a oedden nhw'n edrych ar y math yma o waith. Dywedodd Marianne ei bod yn ymwybodol o Brosiect Pontbren ond nid y defnydd loeren ynddo. Gallai'r prosiectau hyn gyfrannu at yr hyn rydym ni'n ei wneud a rhai o'r trafodaethau cyfranogol.

35. Dywedodd Rachel y gall ffermwyr deimlo'n nerfus gyda dulliau mapio a modelu oherwydd pan fyddant yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau polisi, mae'n anochel eu bod nhw ar ochr anghywir y llinell ar fap. Soniodd Rachel am ddosbarthiad daearyddol yn y cyflwyniad, a gofynnodd sut mae hynny'n cael ei ddiffinio. Gofynnodd Rachel sut mae hyn yn cyd-fynd â Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a’r Amgylchedd (ERAMMP), sydd hefyd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cynnwys rhyw fath o allu modelu i lywio penderfyniadau'r dyfodol. O ran dosbarthiad cynefinoedd, dywedodd Abi eu bod nhw wedi gwneud dosbarthiad cam un yn ddiweddar sy'n system haenog sy'n edrych ar gynefinoedd. Oherwydd amser cyfyngedig, awgrymodd Abi i bobl edrych ar wefan Living Wales i gael eglurhad manwl, ond dywedodd ei bod yn system fyd-eang y gellir ei throsi a'i throsglwyddo i systemau eraill. Un o'r pethau rydym ni'n edrych arno o fewn y prosiect hwn yw trosglwyddo'r dosbarthiad cynefinoedd hwnnw, i ddosbarthiadau amaethyddol.

36. Dywedodd Richard fod Living Wales yn ymddangos yn adnodd gwych, a'n bod ni wedi gobeithio iddo fod yn rhan o'r prosiect y gwnaethom ni eleni, ond nad oedd cyllid ar gael. Mae'n cysylltu â'i gilydd oherwydd os ydych chi am edrych ar gyflwr y system, yna mae defnyddio'r dulliau hyn yn ffordd dda iawn o leihau ymdrechion i ffermwyr, os gallwn ni wella ymddiriedaeth. Mae cael iaith gyffredin a golwg gyfannol ar gynaliadwyedd yn allweddol oherwydd gallwch wneud pethau cyffrous gyda rheoli llifogydd neu goedwigaeth. Cytunodd Marianne fod potensial i gysylltu'r ddau brosiect, a gallwch ddychmygu sefyllfa lle mae rhywun wedi mynd trwy'r broses GFM, datblygu eu cynlluniau rheoli yn unol â hynny ac yna'n monitro cynnydd y cynlluniau hynny gan ddefnyddio'r feddalwedd o bell a dull synhwyro o bell. Mae'n amlwg mai cynaliadwyedd yw'r nod, ond gall hefyd gynnwys cefnogi cynnydd mewn allbynnau, cynnyrch, cynaliadwyedd economaidd, ac mae hynny'n rhan allweddol o gynaliadwyedd cyfannol. Mae potensial i ddefnyddio Living Wales er mwyn monitro a gorfodi, ond gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer pethau eraill hefyd. Mae posibilrwydd y gallwn wneud cytundebau cyfrinachedd os mai dyna sydd ei angen i wneud i bawb deimlo'n ddiogel a chyfforddus i gymryd rhan.

## Eitem 5 Cytundebau Rheoli Tir

37. Ymunodd Nick Thomas, Joel Rees-Jones a Jennifer Day, CNC â'r cyfarfod i drafod cydweithio â pherchnogion tir i ddod â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) i gyflwr gwell.

38. Dywedodd Nick fod ei waith yn canolbwyntio ar oruchwylio pum prosiect CNC yng Nghymru wedi'u hariannu gan gronfa LIFE yr UE, sy'n brosiectau ar raddfa fawr i wella cyflwr safleoedd gwarchodedig. Mae Nick hefyd yn goruchwylio cyllid Rhwydweithiau Natur CNC sy'n cael ei roi i CNC gan Lywodraeth Cymru i wella cyflwr safleoedd gwarchodedig. Dangosodd Nick fap o SoDdGA, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru a'r dyfroedd o'i hamgylch. Mae ardal fawr wedi'i diogelu, gyda thua 12% o Gymru yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (mae dros 1000 o SoDdGA). Ni wyddom beth yw cyflwr 50% o'r rheiny oherwydd nad yw swyddogion wedi ymweld â'r safleoedd hynny'n fanwl ers sawl blwyddyn. Ond rydym ni'n gwybod, o'r safleoedd yr ymwelwyd â nhw, bod tua 30% o'r nodweddion mewn cyflwr anffafriol. Nodweddion fel glaswelltir corsiog, gloÿnnod byw britheg y gors, cregyn gleision perlog ac ati. Er ein bod ni'n gwybod bod 20% o'r safleoedd rydym ni wedi monitro mewn cyflwr ffafriol, nid yw'n ddarlun da iawn mewn gwirionedd. Felly, o'r 50% nad ydym yn gwybod eu cyflwr, mae'n debyg bod dros hanner o leiaf mewn cyflwr anffafriol. O ganlyniad, rydym ni wedi cael llawer o arian gan Lywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf i geisio cynyddu ein hymdrechion i wella cyflwr y safleoedd hyn trwy'r gronfa Rhwydweithiau Natur.

39. Rydym ni wedi canolbwyntio ar rai o'r cynefinoedd blaenoriaeth uchaf (e.e. twyni tywod, clogwyni môr a chorsydd heli, coed pori, glaswelltiroedd, ac ati) ynghyd â llu o brosiectau morol. Yn ogystal â hynny, mae gennym sawl prosiect graddfa fawr, y rhan fwyaf wedi'u hariannu gan gronfa LIFE yr UE sydd wedi'u gwasgaru ar hyd a lled Cymru ac sy'n canolbwyntio ar fawndiroedd, twyni tywod, coetiroedd ac afonydd.

40. Mae Jennifer yn Swyddog Cadwraeth yn Sir Gâr ac eisiau siarad â'r grŵp am laswelltiroedd corsiog. Mae 99 SoDdGA, 6 Ardal Cadwraeth Arbennig a 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig yn Sir Gâr. Mae'r rhain yn cynnwys dŵr ffres, daearol, ffeniau, cyforgorsydd, safleoedd daeareg ac ati. Dangosodd Jennifer fap yn nodi lleoliad y safleoedd hyn. Rhoddodd Jennifer drosolwg byr o rai o'r sefydliadau y mae CNC yn gweithio gyda nhw, sydd naill ai'n rheoli'r safleoedd gwarchodedig neu’n berchen ar rai ohonynt. Mae CNC hefyd yn gweithio gyda pherchnogion tir preifat yn ogystal â ffermwyr.

41. Rhoddodd Jennifer grynodeb o'r fethodoleg o adfer safleoedd gwarchodedig sy'n cynnwys asesiadau safle, cytundebau rheoli, adfer, rheoli a monitro safleoedd.

42. Cynhaliwyd llawer o waith ar loÿnnod byw britheg y gors. Mae pellafoedd gorllewinol y DU yn fannau da ar eu cyfer. Maent wedi diflannu o sawl rhan o’u cynefin blaenorol yn nwyrain Lloegr. Maent yn aml yn asesu manteision Tamaid y Cythraul, ac rydym yn gwneud llawer o waith cyfrif gweoedd larfa a monitro hediad gloynnod llawn dwf.

43. Trafododd Jennifer ddwy astudiaeth achos lle’r oedd y ddau safle’n cynnwys glaswelltir corsiog. Gellid dadlau bod SoDdGA Cae Cwrt Brynbeirdd yn un o'r safleoedd gorau ar gyfer Gloÿnnod Byw Britheg y Gors yn Sir Gâr. Mae llawer o dir amaeth wedi'i wella, a pherchennog y tir yw ffermwr heb fawr o ddiddordeb yn y safle hwn am ei fod yn rhy

wlyb. Arferai gwartheg a lloi yn pori rhywfaint ohono, ond dywedodd y ffermwr fod y cadeiriau’n mynd yn rhy fwdlyd a bod y lloi wedyn yn gwrthod sugno, sydd hefyd yn fater hylendid.

44. Nid yw SoDdGA Caeau Rhyd-y-gwiail yn eiddo i ffermwr, ond mae llawer o dir âr o gwmpas y safle ac mae ganddo warchodaeth tir glas corsiog.

45. Mae'r asesiad cychwynnol o'r safle'n cynnwys gweld beth yw'r problemau ar y safle, megis gordyfiant prysgwydd a phroblemau’n ymwneud â gwartheg yn pori (Cae Cwrt Brynbeirdd) a phrysgwydd yn gordyfu a datblygu, mieri trwchus oherwydd tanbori a phresenoldeb pathewod sy'n Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (Caeau Rhyd-y-gwiail). Rydym ni'n dibynnu'n fawr ar y Butterfly Conservation i gyfrif gweoedd larfa a monitro Gloÿnnod Byw Britheg y Gors. Nod y cynllun adfer oedd gweithredu'r gwaith cyfalaf hwn. Cyflogwyd contractwyr arbenigol i glirio prysgwydd ar y safle. Mae tua 15% o'r safle wedi'i adfer i laswelltir corsiog. Gan fod y pathew yn Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop, roedd rhaid i Jennifer wneud cais am gytundeb gyda'r Tîm Rhywogaethau cyn mynd ati i blannu rhes ddwbl am yn ail o wrychoedd cyll i liniaru cael gwared ar rai o'r mieri a chlirio prysgwydd. Ni tharfwyd ar goridor cynefin eang, a gosodwyd 10 bocs pathew i fodloni'r cytundeb a gweithio gyda'r Tîm Rhywogaethau. Roedd y gwaith hwn o fudd i Loÿnnod Byw Britheg y Gors, glaswelltir a'r pathew sy'n Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop.

46. Rhoddodd Jennifer drosolwg byr o rywfaint o’r gwaith cyfalaf arall a wnaed ar y safle gan ddangos ambell lun 'cyn' ac 'ar ôl'. Wedi'r gwaith adfer, yr elfen nesaf yw rheoli a monitro. Mae angen i ni barhau a gwneud yn siŵr ei fod yn symud tuag at statws cadwraeth ffafriol. Gwnaeth y tîm gyfrifiadau unedau da byw fel bod modd pori'r safleoedd yn sensitif, a heb eu gorstocio. Cafodd y safleoedd eu stocio a'u pori dros gyfnod o saith mis rhwng Ebrill a Hydref. Mae'n rhy wlyb yn y gaeaf, sy'n arwain at sathru'r ddaear ac nid yw'n deg i dda byw. Er mai gwartheg sydd orau ar gyfer pori'r glaswelltiroedd corsiog hyn, rhaid oedd cydweithio â'r tirfeddiannwr yng Nghae Cwrt Brynbeirdd i gael 3 merlen Gymreig ar y safle am mai dyna'r dewis mwy diogel oherwydd problemau TB posibl a chymysgu buchesi. Yng Nghaeau Rhyd-y-gwiail defnyddiwyd gwartheg yr Ucheldir i bori'r safle mewn modd sensitif.

47. Adolygodd Jennifer rai o'r problemau gyda rheoli safleoedd dynodedig gan gynnwys oedi, methu talu mwy na chyfraddau Glastir, ffensio ar dir comin ac argaeledd bridiau gwartheg brodorol a defnyddio coleri Nofence ar ferlod.

48. Joel yw Arweinydd Tîm Prosiect LIFE Afon Dyfrdwy. Prosiect 5 mlynedd tan ddiwedd 2024 yw hwn gyda chyllideb o tua £6.8 miliwn. CNC yw'r buddiolwyr cydlynu (yn rheoli a rhedeg y prosiect) ac mae gennym fuddiolwyr cysylltiedig a chyd-arianwyr ar y prosiect, gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Dŵr Cymru.

49. Bu Joel yn trafod prif amcanion y prosiect gan gynnwys:

- Dileu'r cyfyngiadau ar fudo pysgod
- Adfer a gwella prosesau a chynefinoedd naturiol yr afon
- Gwella'r arferion rheoli tir amaeth a choedwigaeth gyda'r prif nod o leihau faint o faethynnau a gwaddodion sy'n llifo i afon Ardal Cadwraeth Arbennig.
- Cychwyn rheolaeth cadwraeth ar gyfer cregyn gleision perlog dŵr croyw.

- Sefydlu a meithrin perthynas gadarnhaol hirdymor gyda rhanddeiliaid allweddol yn ystod oes y prosiect a thu hwnt.

50. Gorffennodd Joel trwy roi trosolwg o rai o lwyddiannau'r prosiect hyd yma, gan ddangos lluniau 'cyn' ac 'ar ôl'.

51. Soniodd Dennis fod sefydliad PONT yn treialu coleri Nofence ar wartheg yn y Gŵyr a mynyddoedd Cambria ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd PONT eisiau eu defnyddio ar ferlod, ond nid oedd Llywodraeth Cymru'n caniatáu hynny.

    Soniodd Dennis am adroddiad diweddar a ddywedodd fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn argymell pori gyda gwartheg a merlod ar safleoedd archaeolegol er mwyn cyfnerthu'r tir a helpu i gadw'r strwythur. Mewn cyflwyniad ar y Gronfa Adfer Natur, dywedwyd bod yr arian a ddarparwyd gan y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru'n cael ei ddefnyddio i ymrwymo i tua 89 o gytundebau rheoli. Un prif floc o gytundebau oedd dychwelyd pori cymysg i'r bryniau (gwartheg a defaid) er mwyn ceisio adfer y llystyfiant i'r hyn yr oedd 50 neu 60 mlynedd yn ôl. Gofynnodd Dennis a yw'r prosiect hwn yn gysylltiedig â hynny neu a yw'n beth hollol ar wahân. Dywedodd Nick ei fod yn amau mai'r un prosiect ydyw. O ran Cronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru, mae rhywfaint o'r arian hwnnw yn mynd i brosiectau mawr gan bartneriaid, ond maent wedi rhoi rhywfaint o arian i CNC hefyd, ac o ganlyniad, fe wnaethom ymrwymo i lawer o gytundebau rheoli y llynedd (yn rhannol gan ddefnyddio'r arian hwnnw). Mae'n debyg bod hyn yn ymwneud â'r datganiad i'r wasg y cyfeiriodd Dennis ato. Rydym ni'n ceisio cael mwy o wartheg i sawl lleoliad gwahanol gan fod eu dull o bori yn fuddiol iawn, o gymharu â defaid. Ond mae'n dipyn o frwydr gan fod nifer y buchesi gwartheg sugno yn gostwng ac rydym ni angen bridiau brodorol ar gyfer llawer o'r sefyllfaoedd hyn lle mae'r borfa'n arw ar yr ucheldiroedd am eu bod yn ymdopi’n well. Mae TB yn broblem fawr mewn sawl rhan o Gymru hefyd, felly mae rhai ffermwyr yn gyndyn iawn o droi gwartheg allan mewn rhai o'r llefydd yma yn sgil hynny.

52. Dywedodd Rachel fod dulliau rheoli'r safleoedd gwarchodedig a'r system ar gyfer eu rheoli'n effeithiol wedi chwalu dros yr wyth i 10 mlynedd diwethaf. Disgrifiodd Rachel ei phrofiad uniongyrchol o SoDdGA ar fferm denant. Mae angen i CNC nodi'r gwersi a ddysgwyd o’r glasbrint blaenorol, oherwydd mae'r dull o wneud hyn trwy gynllun amgylchedd amaethyddol eang a chyffredinol fel Glastir neu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ddiffygiol. Mae angen cytundebau rheoli penodol arnynt sy'n cael eu datblygu ar y cyd â'r ffermwr, cytundebau sy'n rhoi gwobr deg dros gyfnod hirdymor am reolaeth effeithiol. Dywedodd Rachel fod y system a amlinellodd Jennifer yn ymddangos fel eich bod yn ceisio dod â hynny'n ôl, ond mae'n drueni ein bod wedi colli'r cysylltiadau hynny yn y cyfamser oherwydd eu bod yn allweddol i reoli safleoedd gwarchodedig yn y modd gorau posibl. Roedd Nick yn cytuno, mae'r berthynas rhwng aelod o staff CNC a'r ffermwr/rheolwr tir/perchennog tir yn hollbwysig. Bydd hynny'n bwysig iawn ar y cyd â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy hefyd. Awgrymodd Rachel fod angen neilltuo swyddog CNC i bob safle i adeiladu'r berthynas honno. Mae hyn yn gofyn am arferion rheoli penodol, ond ar gost i'r busnes fferm. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynglŷn â'i tharged 30x30 ac yn ariannu CNC tuag at gyflawni hynny, yna mae angen rhoi'r adnoddau yn eu lle - ac mae disgwyl i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy dalu'r bil yn gwbl afrealistig. Ategodd Zoe sylwadau ynglŷn â'r angen i ailgysylltu â'r timau lleol, a soniodd fod map wedi'i rannu cyn y cyfarfod gyda manylion cyswllt timau amgylchedd lleol CNC ledled Cymru. Anogodd Zoe bawb i rannu'r wybodaeth hon gyda ffermwyr a dywedodd fod rhaid i CNC fonitro hyn ac ymateb i unrhyw gyfathrebu.

53. Dywedodd Nick ein bod yn clywed nad yw llawer o berchnogion tir am ymrwymo i gytundeb rheoli ar hyn o bryd, gan eu bod yn aros i weld beth yn union yw cynnig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Maent yn poeni y gallai ymrwymo i gytundeb rheoli nawr effeithio ar eu taliadau dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Eglurodd Nick fod cymal yn y cytundebau rheoli yn dweud y bydd CNC yn eich rhyddhau o'r cytundeb rheoli os oes cynllun amgylchedd cyfartal neu well i ymuno ag ef. Yn ôl Nick, mae angen rhannu'r neges hon oherwydd mae'n dipyn o rwystr i'n gwaith.

54. Yn ôl Rachel mae cryn waith cyfathrebu i'w wneud yma gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'n edrych fel cynllun amgylchedd amaethyddol, ond nid felly ydyw oherwydd mae hefyd yn disodli taliadau colofn 1 Cynllun y Taliad Sylfaenol felly mae'n gorfod darparu'r lefel honno o incwm i fusnesau fferm. Roedd cynllun Glastir yn seiliedig ar system bwyntiau ac mae ffermwyr yn wyliadwrus iawn o'r ffaith na fyddent o bosib yn gallu ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy os yw'n seiliedig ar system bwyntiau a'u bod nhw wedi gwneud yr holl waith amgylcheddol, a allai gynnwys safle gwarchodedig o'r blaen. Mae yna neges glir iawn i'w hanfon yn ôl i Lywodraeth Cymru a CNC o safbwynt gwobrwyo teg. Byth ers ymgynghoriad Brexit a'n Tir yn 2017/2018, cafodd y gymuned ffermio wybod y byddant yn cael gwobr deg am y nwyddau amgylcheddol y maent yn eu cyflenwi. Mewn gwirionedd, yn ystod y cyfnod pontio hwn tuag at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, nid ydynt yn cael mynd y tu hwnt i'r costau a ysgwyddwyd ac incwm a ildiwyd. Felly, os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif am ddod â'r safleoedd hyn o dan reolaeth briodol a darparu gwobr deg, mae angen unioni hynny nawr. Os oedd y gwobrau/cymhellion yno, byddai hynny'n mynd ffordd bell o ran annog ffermwyr i fod â digon o hyder i ymrwymo i gytundeb rheoli yn hytrach nag aros i weld manylion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

55. Soniodd Sarah Hetherington mai dyma un o'r risgiau y mae CNC wedi'u codi gyda thîm Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn ogystal â thrwy sianeli eraill. Rydym yn disgwyl am wybodaeth ac eglurder ynghylch y ffaith os bydd ffermwyr yn ymuno â chynlluniau ac yn dechrau symud tuag at dargedau, yna ni fydd yn cyfrif yn eu herbyn wrth symud ymlaen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac y bydd yn beth cadarnhaol mewn gwirionedd.

56. Gofynnodd Anthony os ydynt yn cael eu rhyddhau i gynlluniau eraill sy'n 'well', a yw hynny'n well i'r ffermwr a'u busnes cynaliadwy neu'n well i'r tir o safbwynt y canlyniadau amgylcheddol sydd wedi'u nodi yn y cynllun rheoli hwnnw, ac a oes rhyw lefel o osod llinell sylfaen cyn y bydd pobl yn ymuno â'r cynlluniau hynny? Mae Confor wedi edrych ar gytundebau rheoli coedwigoedd hirdymor ac wedi cael trafodaethau diddorol yn ymwneud â chytundebau rheoli tir hirdymor yn ymwneud â choedwigoedd, yn enwedig rhai â Chynefinoedd Adran 7. Nid oes llawer iawn o ymddiriedaeth o ran gweithredu ac asesu rhai o'r cytundebau Rheoli Tir hynny. Oes gennych chi ddigon o bartneriaid i allu creu'r astudiaethau achos neu’r cyfathrebu sy'n dechrau ailadeiladu'r ymddiriedaeth honno bod y rhain mewn gwirionedd yn ganlyniadau gwerthfawr a buddiol i berchnogion tir a chynefinoedd? Dywedodd Nick fod cyfartal neu well yn cael ei asesu ar sail amgylcheddol, ac mai mater i'r ffarmwr fyddai'r opsiwn wedyn. Felly, pe baem ni'n teimlo bod y cynllun newydd yn cynnig rhywbeth cyfartal neu well na'r cytundeb Rheoli Tir, byddem yn hapus i ryddhau'r ffermwr o'r cytundeb hwnnw. O ran astudiaethau achos, dyma rydym ni'n ei wneud trwy bobl fel Jennifer a Joel, lle’r ydym yn gobeithio rhannu mwy o straeon am hyn a chreu portffolio o straeon cadarnhaol, sy'n gadarnhaol i'r amgylchedd a pherchnogion tir fel ei gilydd. Dywedodd Nick y byddem yn asesu pob safle cyn ymrwymo i gytundeb rheoli gan edrych ar gyflwr y

safle. Ar y diwedd byddwn yn gallu penderfynu a fu'n llwyddiant ai peidio, ac a yw'r ffermwr wedi cyflawni'r hyn a gynlluniwyd neu efallai fod yr hyn a ragnodwyd yn y cynllun yn anghywir yn y lle cyntaf, felly mae angen ystyried sawl ffactor cyn ac ar ôl gweithredu’r cytundeb.

## Eitem 6 Cynllun Corfforaethol CNC

57. Dywedodd Dom fod Tîm Cynllunio Corfforaethol CNC wedi trafod y broses ddatblygu gyda'r Fforwm hwn yn gynharach yn y flwyddyn.

58. Rhannodd Dom rywfaint o wybodaeth lefel uchel ynglŷn â Chynllun Corfforaethol newydd CNC gan gynnwys siâp y cynllun, yr her, y weledigaeth a'r genhadaeth a'r amcanion.

59. Dywedodd fod cyfle i roi adborth ar y blaenoriaethau sy'n datblygu, y byddwn yn ei ystyried wrth adolygu'r ddogfen yn yr wythnosau nesaf.

## Eitem 6 Diweddariadau CNC

60. Cyn y cyfarfod, rhannwyd Papur Diweddaru'r Fforwm gyda'r aelodau, gyda rhywfaint o wybodaeth berthnasol i'r aelodau ei hadolygu.

61. Dywedodd Zoe fod y Papur Diweddaru yn gynhwysfawr dros ben a bod llawer yn digwydd o fewn CNC.

62. Dywedodd Bronwen fod llawer o'r pynciau dan sylw ym Mhapur Diweddaru mis Rhagfyr wedi eu hawgrymu gan Ruth Jenkins, CNC. Mae rhannu gwybodaeth ysgrifenedig yn helpu i wneud defnydd mwy effeithlon o'r amser cyfarfod.

63. Anogir aelodau i adolygu'r ddogfen ymlaen llaw a dod i'r cyfarfod gyda chwestiynau.

## Eitem 7 Diweddariad gan FUW / NFU Cymru / CFfI Cymru / Confor / CLA / TFA / Llywodraeth Cymru

64. **FUW:** Dywedodd Teleri Fielden, FUW mai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yw'r darnau mwyaf o waith ar hyn o bryd. Mae FUW wedi bod cynnal gwaith ymgysylltu a chasglu adborth gan eu haelodau ynglŷn â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae FUW hefyd yn gweithio ar ymgynghoriad talwyr ffioedd ynghyd â materion BVD a TB.

    Holodd Sarah a yw staff Cynllun Ffermio Cynaliadwy FUW yn gweithio gyda'u haelodau yn unig neu gyda'r broses gyd-ddylunio. Dywedodd Teleri eu bod yn gwneud y ddau. Roedd yr FUW yn teithio o gwmpas yr holl gyfarfodydd sirol a changen er mwyn egluro cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chasglu adborth gan eu haelodau. Mae FUW yn eistedd ar grwpiau cyd-ddylunio amrywiol ar gyfer tenantiaid, tiroedd comin a newydd-ddyfodiaid ifanc.

65. **NFU Cymru:** Dywedodd Rachel Lewis-Davies fod pwyslais wedi bod ar Fil Amaeth (Cymru) a datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a’i fod yn parhau felly. Yn y Ffair Aeaf wythnos ddiwethaf, lansiodd NFU Cymru bapur ar flaenoriaethau polisi ar gyfer tir

comin wrth i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei ddatblygu. Bydd gan CNC ddiddordeb allweddol yn hynny oherwydd mae tir comin yn gorchuddio 10% o Gymru, mae'n storfa garbon ac mae'n cynnal cynefinoedd a rhywogaethau allweddol, ac wrth gwrs mae cael porwyr yn rheoli'r tir hwnnw yn bwysig i'w lwyddiant.

Mae NFU Cymru'n gweithio gyda'u haelodau er mwyn llunio ein hymateb i'r ymgynghoriad talwyr ffioedd, ond mae'n deg dweud eu bod wedi gwylltio gyda rhai o'r cynigion y mae CNC wedi'u cyflwyno, a sut y gellir ystyried bod cynnydd o 10 gwaith yn realistig yn y byd sydd ohoni. Dywedodd Rachel fod angen i CNC gofio'r bobl allweddol y mae'n eu rheoleiddio drwy'r talwyr tâl gan mai nhw yw'r bobl allweddol y mae am weithio gyda nhw ar gyflawni canlyniadau'r amgylcheddol.

Darn arall o waith allweddol yw ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar system drwyddedu'r Parth Perygl Nitradau.

66. **CFfI Cymru:** Nid oedd cynrychiolydd CFfI Cymru yn bresennol.

67. **Confor:** Dywedodd Anthony Geddes fod Confor wedi bod yn gweithio ar ymgynghoriad Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) sy'n parhau. Argymhellodd Anthony fod Teleri a Rachel yn edrych ar yr ymgynghoriad hwnnw oherwydd ei fod yn cael effaith o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol, yn enwedig os bydd 10% o goed ar ffermydd yn cael eu rheoli i safon UKFS. Mae gan Confor deimladau eithaf cryf ynglŷn â sut mae hynny'n gweithio a ddim yn gweithio. Dywedodd Anthony y byddai'n hapus i ymhelaethu ar hynny gydag aelodau eraill o'r Fforwm.

Mae'n amlwg bod yr ymgynghoriad talwyr ffioedd yn effeithio arnom ni mewn nifer o feysydd bach, ond bod ganddo botensial i rwystro rheoli coetiroedd go iawn. Mae coetir a reolir yn parhau i fod un o'r defnyddiau tir sydd naill ai mewn cyflwr da neu'n gwella yng Nghymru, a byddai'n drueni gweld hynny'n dirywio oherwydd llai o reolaeth o ganlyniad i ffioedd newydd. Hynny law yn llaw â'r Bil Amaethyddiaeth a'r newidiadau sy'n cael eu cynnig mewn Trwyddedau Cwympo, i amodau trwyddedau a'r gallu i atal, diwygio neu ddirymu'r rheiny. Rydym ni'n cefnogi rhai newidiadau cadarnhaol iawn yn y bil hwnnw. Fodd bynnag, ac mae hwn yn adborth reit gignoeth, ond yr elfen fwyaf pryderus i ni yw ansawdd y papur a ddarparwyd gan CNC am sut mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau newydd hyn. Mae bylchau enfawr o ran deall y broses o weithredu, yr amodau a sut a phryd y bydd hynny'n cael ei ystyried yn briodol neu'n amhriodol gan CNC. Mae gormod o fylchau yn yr wybodaeth a ddarparwyd i ni ar hyn o bryd i ni allu gwneud sylw hyderus y bydd CNC yn gweithredu mewn modd pragmataidd fel partner i'r sector. Rydym ni'n poeni'n fawr am raddfa'r effaith hon.

Mae Confor yn gweithio gyda'r grŵp strategaeth ddiwydiannol i lunio strategaeth ddiwydiannol ffibr coed a phren ar gyfer y sector pren a choedwigaeth yng Nghymru. Mae'n ddarn o waith eithaf hirdymor a ddylai orffen tua mis Hydref 2023. Bydd angen ymgysylltu ag amryw o grwpiau rhanddeiliaid dros y 12 mis nesaf.

Dylid lansio'r diweddariad i'r cynllun marchnata pren a'r rhagolygon cynhyrchu ar gyfer 2023 yn fuan, a dylid ymgynghori â'r adran ar hynny ym mis Chwefror yn y Diwrnod Cyswllt Pren.

68. **CLA:** Bu'n rhaid i Fraser McAuley, CLA adael y cyfarfod cyn yr eitem hon.

69. **TFA:** Soniodd Dennis Matheson mai prif ffocws y TFA oedd ceisio cael mynediad i denantiaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac os gallant gael mynediad ato yna fe allant gymryd rhan ynddo. Dywedodd Dennis nad oes llawer o gynnydd wedi bod ar hynny. Mae Gweithgor Tenantiaeth wedi'i sefydlu bellach, a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf yn ddiweddar. Gobeithio y bydd y grŵp yma'n cynnig rhai atebion. Dywedodd Dennis ei bod hi'n drueni na chafodd ei sefydlu cyn y Bil Amaethyddiaeth. Nid yw’r Bil Amaethyddiaeth ei hun yn cynnwys bron unrhyw gyfeiriad at denantiaethau o gwbl, ar ôl dweud yn wreiddiol y byddai'n ymdrin â nhw. Mae hyn yn siomedig iawn.

# Eitem 8 Unrhyw fater arall

70. Bydd dyddiadau cyfarfodydd 2023 yn cael eu dosbarthu’n fuan. Anogir aelodau i awgrymu pynciau ar gyfer yr agenda a'r papur diweddaru, trwy roi gwybod i Bronwen.

***PG 06 Rhagfyr: Bronwen Martin, CNC i ddosbarthu dyddiadau cyfarfodydd 2023.***

71. Ni chodwyd unrhyw fater arall.

## Diwedd y cyfarfod